**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) eu gosod gerbron Senedd y DU ar 25 Mehefin 2019 ac maent bellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r gorchymyn ar gael yn:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-electronic-commerce-directive-adoption-and-children-amendment-etc-eu-exit-regulations-2019-revised

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan**

3. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r OS yn dileu'r cyfeiriadau at yr egwyddor Gwlad Wreiddiol, ac at yr UE a gwladwriaeth yr UE, o Atodlen 11B o Ddeddf Addysg 2002 a Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002) 2005.

4. Mae angen y cywiriadau hyn er mwyn sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau i weithredu ar ôl y diwrnod ymadael.

**Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Addysg 2002 (c. 32) ("Deddf 2002") a Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002) 2005 (O.S. 2005/3222) ("Rheoliadau 2005"). Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau'n darparu ar gyfer datgymhwyso'r egwyddor "gwlad wreiddiol" mewn perthynas â rhai materion o dan Ddeddf 2002 a Rheoliadau 2005 yn eu trefn.

6. Mae'r diwygiadau i Ddeddf 2002 yn ymwneud â darpariaeth yn Atodlen 11B i'r Ddeddf honno (mewn perthynas â chyhoeddi mater sy'n torri'r cyfyngiadau ar adrodd ar droseddau honedig gan athrawon; mae'r darpariaethau hynny'n ymestyn i Gymru a Lloegr). Effaith y diwygiadau yw datgymhwyso'r egwyddor gwlad wreiddiol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithas wybodaeth sydd o bosibl wedi torri'r cyfyngiadau adrodd o dan adran 141F o Ddeddf 2002.

7. Mae'r diwygiadau i Reoliadau 2005 yn darparu ar gyfer datgymhwyso'r egwyddor gwlad wreiddiol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithas wybodaeth wrth gymhwyso adrannau 92 a 93 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (c. 38) (cyfyngiad ar drefnu mabwysiadu) ac adrannau 123 a 124 o'r Ddeddf honno (cyfyngiad ar hysbysebu mabwysiadu).

8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraffau 5 i 7 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwasanaethau a chyfleusterau ym maes mabwysiadu ac Addysg.

**Pam y mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

9. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws Cymru a Lloegr yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Julie Morgan AC**
**Deputy Minister for Health and Social Services**
**26 Mehefin 2019**